



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Tîm Therapi Iaith a Lleferydd Plant Strategaethau i ddatblygu Geirfa

Awgrymiadau Defnyddiol

- Gofalwch fod cyn lleied o bethau â phosibl yn tynnu sylw eich plentyn, ac ewch ati i leihau'r sŵn cefndir.
- Cyfatebwch eich iaith i'r hyn sy'n dal sylw eich plentyn
- Defnyddiwch wrthrychau go iawn lle bo hynny'n bosibl – mae'n haws dysgu geirfa trwy ddefnyddio gwrthrychau go iawn
- Yn ystod y dydd, enwch/labelwch wrthrychau y mae gan eich plentyn ddi-ddordeb ynddynt, h.y. pethau y mae'n chwarae â nhw/yn edrych arnynt wrth i chi fynd am dro/yn eu gweld mewn llyfr, ac ati
- Ailadroddwch y gair newydd sawl gwaith mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. 'gwlyb' – 'mae dy wallt yn wlyb', 'ci gwlyb', 'mae'n wlyb tu allan'. Mae angen i blentyn glywed gair sawl gwaith cyn y bydd yn gallu ei gofio
- Amlsynhwyraidd – cynigiwch gyfleoedd i'ch plentyn glywed y gair, gweld y gwrthrych, teimlo'r gwedd, defnyddio'r gwrthrych, a'i arogleuo a'i flas, lle bo hynny'n bosibl.
- Gwnewch ryw beth ymarferol – pan fyddwch yn addysgu geiriau gweithredu, anogwch eich plentyn i wneud y weithred wrth i chi ei ddweud, e.e. gêm 'Mae Seimon yn Dweud'
- Clapio sillafau – anogwch eich plentyn i glapio nifer y sillafau sydd yn y gair. Os bydd yn cael trafferth, dangoswch iddo beth i'w wneud, a'i annog i'ch copio.
- Trefnu/categorioidio – anogwch eich plentyn i nodi'r hyn yrydych yn ei wneud gyda'r gwrthrych, ac i ba gategori y mae'n perthyn, lle bo hynny'n bosibl, e.e. bwyd, anifeiliaid, teganau.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn cael digon o gyfleoedd i ddweud y gair a defnyddio'r gair/defnyddio'r gair mewn ymadrodd/brawddeg (plentyn hŷn).
- Yn achos plentyn hŷn, siaradwch am ymddangosid yr eitem, h.y. sut olwg sydd arno; swyddogaeth h.y. beth yr ydych yn ei wneud â'r eitem; categori, h.y. i ba grŵp y mae'n perthyn; cysylltu, h.y. Gyda beth y caiff ei ddefnyddio? Ble y bydddech yn dod o hyd iddo? Pa sain sydd ar y dechrau? Sawl sillaf sydd i'r gair?

Amser stori – wrth edrych ar

lyfrau gyda'ch plentyn, gofynnwch iddo chwilio am y pethau yr ydych yn eu henwi, e.e. Cer i chwilio am ... tedi/cath/car/tŷ/ci/pêl/nofio/hedfan/rhedeg. Cymerwch eich tro gyda'ch plentyn, ac anogwch ef i ofyn i chi chwilio am y pethau sydd yn y llyfr.

Beth sydd yn y bag/bocs?

Casglwch fag o eitemau. Cymerwch eich tro gyda'ch plentyn, a thynnwch eitem allan o'r bag a'i henwi. Trafodwch yr hyn yr ydych yn ei wneud gyda'r eitem, a dangoswch sut i'w defnyddio.

Pysgota – dewch o hyd i luniau ar gyfer set penodol o eirfa, a gofynnwch i'ch plentyn pysgota amdanynt, ac yna eu henwi.



Sgitts – rhowch eitemau'r eirfa o dan/o flaen y sgitts. Dylai'r plentyn eu taro i lawr ac enwi'r eitem.

Chwarae cuddio – cuddiwch

wrthrychau o amgylch y tŷ a gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i'r un y byddwch yn ei enwi, e.e. "Cer i chwilio am y mwnci/yr allwedd/i llyfr."

Beth y mae Tedi'n ei wneud?

Gofynnwch i'ch plentyn wneud i Tedi wneud ystumiau gweithrediadau, e.e. cysgu, cerdded, rhedeg, ac ati. Cymerwch eich tro, ac anogwch eich plentyn i ddweud wrthydd beth i'w wneud gyda Tedi, neu beth y mae Tedi'n ei wneud.



Charades/Mae Seimon yn Dweud – paratowch ddetholiad o gardiau â lluniau berfau gweithrediadau. Actiwch un o'r lluniau, a gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu'r weithred

Es i i'r siop, a phrynais ... – mae'n ofynnol i'ch plentyn enwi eitemau mewn categorïau a'u galw i gof. Mae'n galluogi digon o ailadrodd. Gwnewch bethau'n rhwyddach trwy ddefnyddio rhestr siopa weledol.



Gwefannau ac Apiau:

www.cambscommunityservices.nhs.uk
<https://swindonspeechandlanguagehtherapy.wordpress.com/school-age-resources/>
<https://www.humber.nhs.uk/services/childrens-language-resources.htm>
 My first words (early vocabulary)
 Things that go together

Rhestr y sain gyntaf – dewiswch lythyren, a gofynnwch i'ch plentyn feddwl am bethau o set o gategoriâu ar gyfer y llythyren hon, e.e. "b", ffrwyth: "banana", cludiant: "bws", swydd: "bydwraig." Rhawch gliwiau i'ch plentyn os na all feddwl am ryw beth ei hun.